SAFON BOLISI MAMAU NEWYDD A BEICHIOG

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

MAMAU NEWYDD A MAMAU BEICHIOG

Mae'r Safon Bolisi Iechyd a Diogelwch hon yn nodi'r gofynion sydd ar y Brifysgol a'i cholegau, ei gwasanaethau proffesiynol, ei staff a'i myfyrwyr i ystyried iechyd a diogelwch mewn perthynas â mamau beichiog a mamau newydd a'u plant.

Mae'r Safon Bolisi'n berthnasol i:

- *Pob aelod staff.*
- *Myfyrwyr.*

Nid yw'r Safon Bolisi'n berthnasol i'r canlynol:

- *Ymwelwyr.*
- *Contractwyr.*

Rhagor o Wybodaeth: *Mae gwybodaeth ac eithrio gwybodaeth iechyd a diogelwch, yn cynnwys polisïau ynghylch amser i ffwrdd o'r gwaith neu astudiaethau, cymorth a budd-daliadau, ar gael gan Adnoddau Dynol ac/neu'r Ganolfan Gwasanaethau Myfyrwyr, fel y bo'n berthnasol.*

Cymeradwywyd gan y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch:	**22/05/2013**
Dyddiad Gweithredu	22/05/2013

Adolygwyd gan Grŵp Tasg Iechyd a Diogelwch:	**08/01/2019**
Dyddiad yr Adolygiad Nesaf	2023

Iechyd a Diogelwch / Health and Safety
Governance & Compliance, Corporate Services
Ebost: iechydadiogelwch@bangor.ac.uk - *healthandsafety@bangor.ac.uk*
Tel: 01248 383847 / www.bangor.ac.uk/hss

1. DATGANIAD POLISI

Polisi Prifysgol Bangor, cyn belled ag y bo'n ymarferol bosib, ond yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, gofynion statudol ac arfer da, yw sicrhau iechyd a diogelwch staff, myfyrwyr ac ymwelwyr i'r brifysgol.

Mae'r Brifysgol felly wedi llunio'r Safon Bolisi hon a'r wybodaeth gysylltiedig, i gwrdd â'i dyletswydd gyffredinol i sicrhau, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, bod risgiau ychwanegol i fam newydd neu feichiog a wynebir wrth gynnal gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r Brifysgol yn cael eu rheoli'n briodol.

2. RHAGARWEINIAD

Yn ychwanegol at y dyletswyddau cyffredinol hynny dan y gyfraith, mae gan y Brifysgol a'r Colegau a'r gwasanaethau proffesiynol sy'n perthyn iddi, ymrwymiad penodol dan y Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith i sicrhau bod unrhyw risgiau ychwanegol i fam newydd neu feichiog a wynebir wrth ymgymryd â dyletswyddau sy'n ymwneud â'r brifysgol yn cael eu hystyried a'u rheoli'n briodol cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol.

3. TERMINOLEG A DIFFINIADAU

At ddibenion y Safon Bolisi hon, diffinnir Mamau Newydd a Beichiog fel a ganlyn:

- *Y sawl sy'n feichiog, y sawl sydd wedi geni plentyn o fewn y chwe mis blaenorol, a'r sawl sy'n bwydo ar y fron.*

4. CEFNDIR A GWYBODAETH

Mae'r Safon Bolisi Mamau Newydd a Mamau Beichiog hon a'i dogfennau ategol wedi'u cynllunio i ddarparu gwybodaeth, cyfarwyddyd ac arweiniad i Staff a Myfyrwyr a sefydlu'r trefniadau angenrheidiol i werthuso a rheoli risg a chynnal cofnodion addas.

Tra bydd merch yn disgwyl plentyn mae'n bwysig bod effeithiau posib ei gwaith ar y plentyn heb ei eni'n cael eu hasesu er mwyn gwneud yn siŵr nad yw'r peryglon posib yn y gweithle'n niweidio'r plentyn. Sylweddolir hefyd tra bydd y plentyn yn datblygu y bydd anghenion y ferch yn newid ac y gall fod angen newidiadau ffisegol yn y gweithle i ddarparu ar gyfer y newidiadau hynny.

Ar ôl i'r fam fynd yn ôl i'r gwaith ar ôl geni'r plentyn, mae'n bwysig sylweddoli y gall y gweithle effeithio ar y plentyn newydd ei eni, yn enwedig tra bydd y fam yn bwydo ar y fron. Dylid adolygu trefniadau pan fydd y fam yn dychwelyd i'r gwaith neu hyd yn oed cyn hynny a dylid asesu risgiau i gadarnhau nad oes bellach angen unrhyw drefniadau arbennig neu eu bod yn dal yn addas tra bydd y fam yn bwydo ar y fron.

5. DYLETSWYDDAU'R BRIFYSGOL

Yn unol â Pholisi Iechyd a Diogelwch y Brifysgol, mae'r cyfrifoldeb rheolaethol o ddydd i ddydd dros iechyd a diogelwch wedi ei ddirprwyo i bob coleg a gwasanaeth proffesiynol. Eu cyfrifoldeb hwy yw gweithredu'r Safon Bolisi hon a'r canllawiau cysylltiedig.

6. CYFRIFOLDEBAU COLEGAU A GWASANAETHAU PROFFESIYNOL

Mae'n ddyletswydd ar golegau a gwasanaethau proffesiynol pan fyddant yn cael cadarnhad bod aelod staff neu fyfyrwraig yn disgwyl plentyn neu'n fam newydd i wneud y canlynol:

a) Rhoi gwybod i'r Ganolfan Gwasanaethau Myfyrwyr (yn achos myfyrwyr) neu Iechyd a Diogelwch (yn achos staff).

b) Gwerthuso asesiadau risg presennol sy'n ymwneud â gweithgareddau'r ferch, ystyried yr Asesiad Risg i Famau Newydd a Beichiog a llunio asesiad diwygiedig os yw'r risg yn uwch yn ystod y beichiogrwydd a'r cyfnod bwydo ar y fron.

c) Sicrhau bod y risgiau i iechyd a diogelwch y fam newydd neu feichiog yn cael eu gostwng i'r lefel isaf sy'n rhesymol ymarferol.

d) Sicrhau nad yw gweithgareddau a defnyddiau gwaith yn effeithio ar y plentyn heb ei eni neu'r plentyn newydd ei eni.

e) Os na ellir rheoli neu leihau'r risgiau mewn modd digonol, symud y fam o'r risgiau neu newid y gweithgareddau gwaith er mwyn sicrhau diogelwch y fam a'r plentyn heb ei eni neu newydd ei eni.

f) Rhoi gwybod i Iechyd a Diogelwch neu'r Gwasanaethau Myfyrwyr, fel sy'n gymwys, am y camau sydd i'w cymryd i reoli risg sylweddol.

g) Adolygu asesiad risg y fam newydd neu feichiog yn rheolaidd a chadw cofnod o'r asesiadau hyn am bum mlynedd o leiaf.

h) Sicrhau rhywle lle gall gweithwyr beichiog neu rai sy'n bwydo ar y fron orffwys.

Nodir bod yn rhaid i asesiadau risg eraill yn y gweithle ystyried hefyd risgiau sy'n benodol i ferched mewn oed geni plant, gan gynnwys afiechydon swonatig, deunyddiau teratogenig a mwtagenig.

Dylai Deoniaid Colegau a Phenaethiaid Gwasanaethau Proffesiynol sicrhau bod eu holl aelodau staff a'u myfyrwyr yn cydymffurfio â'r polisi hwn.

7. DYLETSWYDDAU IECHYD A DIOGELWCH / GWASANAETHAU MYFYRWYR

Mae Iechyd a Diogelwch a'r Gwasanaethau Myfyrwyr (fel sy'n gymwys), yn helpu Colegau, Gwasanaethau Proffesiynol, staff a myfyrwyr trwy ddarparu gwybodaeth a chefnogaeth.

Bydd Iechyd a Diogelwch yn darparu templed Asesiadau Risg Mamau Newydd a Beichiog i staff sy'n disgwyl plentyn ac yn eu hanfon at Golegau a Gwasanaethau Proffesiynol i'w hystyried a'u mabwysiadu.

Bydd y Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch yn helpu colegau i werthuso risgiau posib i staff a myfyrwyr sy'n gweithio mewn labordai cemeg, labordai ymchwil fiolegol a labordai ymbelydrol a hefyd gyda meysydd electromagnetig tra eu bod yn feichiog neu'n bwydo ar y fron.

8. ASESIAD RISG

Cyfrifoldeb Deon y Coleg perthnasol neu Bennaeth y Gwasanaeth Proffesiynol yw sicrhau bod trefniadau yn eu lle, adolygu asesiadau risg a lle bo'n briodol llunio asesiad risg personol i'r holl famau newydd a beichiog yn eu Coleg neu eu Gwasanaeth Proffesiynol. Eu cyfrifoldeb nhw hefyd yw sicrhau bod mesurau rheolaeth angenrheidiol yn cael eu gosod yn eu lle a'u monitro a'u hadolygu'n rheolaidd.

Amcan yr Asesiad Risg Mamau Newydd a Beichiog yw helpu i sicrhau nad oes unrhyw niwed yn digwydd i'r fam neu'r baban o ganlyniad i weithgareddau neu fusnes y Brifysgol. Mae hyn yn cymryd i ystyriaeth beryglon ychwanegol sy'n gysylltiedig â gwaith neu astudio ynghyd â chamau mae angen eu cymryd er mwyn lleihau'r risgiau hyn neu gael gwared ohonynt yn llwyr, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol.

I gefnogi'r broses hon lluniwyd asesiad risg ac adnodd gwe i Famau Newydd a Beichiog. Dylid adolygu'r asesiad risg a lle bo angen dylid ei newid i adlewyrchu peryglon a mesurau rheoli risg o fewn y coleg neu wasanaeth.

9. STAFF A MYFYRWYR

Dylai staff a myfyrwyr sy'n feichiog neu wedi geni plentyn yn ddiweddar neu'n bwydo ar y fron, roi gwybod i'w rheolwr llinell neu eu tiwtor personol cyn gynted ag y bo modd a chydweithredu ag unrhyw reolaethau y mae'r asesiad risg yn gofyn amdanynt. Gall y mamau newydd neu famau sy'n feichiog hynny nad ydynt yn dymuno rhoi gwybod ar unwaith i'w Rheolwr Llinell neu Diwtor Personol, ofyn am gyngor gan Iechyd a Diogelwch (staff) neu Wasanaethau Myfyrwyr (myfyrwyr).

Dylai myfyrwyr hefyd gysylltu â Gwasanaethau Myfyrwyr cyn gynted ag y bo modd i drafod eu hanghenion a'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt.

Dylai aelodau staff gysylltu ag Adnoddau Dynol cyn gynted ag y bo modd ynghylch eu beichiogrwydd er mwyn gallu rhoi trefniadau yn eu lle i sicrhau bod cyngor ariannol a chontract addas yn cael ei ddarparu.

Bydd Iechyd a Diogelwch hefyd yn cysylltu â phob aelod staff sydd wedi rhoi gwybod i Adnoddau Dynol a rhoddir y cyfle iddynt drafod unrhyw faterion yn ymwneud â'r gweithle a allai effeithio ar y beichiogrwydd. Mae'n bosib y cysylltir hefyd â myfyrwyr ôl-radd ymchwil sy'n gweithio gyda deunyddiau a allai fod yn beryglus.

Dylai staff a myfyrwyr sy'n bwydo ar y fron ac yn dychwelyd i'w gwaith/astudiaethau hefyd roi gwybod am hynny i'w Tiwtor Personol neu Reolwr Llinell er mwyn gallu adolygu'r asesiad risg, os yw'n nodi eu bod yn gweithio gyda deunyddiau a allasai fod yn niweidiol.

10. SICRHAU CYDRADDOLDEB

Rhaid gwneud pob ymdrech drwy'r asesiad risg i gefnogi unigolion fel eu bod yn cael eu trin yn gyfartal. Fodd bynnag, mewn rhai achosion mae'n bosib y bydd angen trin 'Mamau Newydd a Mamau Beichiog' yn wahanol er mwyn eu diogelu hwy a'r plentyn sydd heb ei eni neu sy'n newydd-anedig rhag effeithiau andwyol posibl y gweithle. Mewn amgylchiadau o'r fath bydd y sawl yr effeithir arnynt yn rhan o'r asesiad, a lle bo angen, gofynnir am gyngor Iechyd a Diogelwch.

Nodir y dylid defnyddio asesiadau risg iechyd a diogelwch fel trefn i alluogi staff a myfyrwyr i ymgymryd â'u tasgau yn ddiogel ac nid fel trefn i atal gweithgaredd dim ond am fod elfen o risg yn bodoli. Dylid gwneud pob ymdrech i gefnogi staff a myfyrwyr i'w galluogi i ymgymryd â'u tasgau yn yr un modd â'u cyfoedion.

Pwrpas yr asesiad yw ceisio sicrhau diogelwch y fam a'r plentyn ac weithiau bydd yn ofynnol gwneud newid i weithgareddau yn y gweithle.

11. GWYBODAETH BELLACH A CHYFARWYDDYD YMARFEROL

Mae gwybodaeth bellach am reolaethau'r brifysgol i sicrhau diogelwch mamau newydd a mamau beichiog a'u plant ar gael trwy dudalennau gwe Iechyd a Diogelwch, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Myfyrwyr fel sy'n gymwys.

12. GWEITHDREFNAU ADOLYGU AC ARCHWILIO

Bydd Iechyd a Diogelwch yn cynnal archwiliadau cyffredinol ac achlysurol i sicrhau y cydymffurfir â'r safon bolisi hon a chyda'r ddeddfwriaeth yn gyffredinol.

Rhaid i Golegau/Gwasanaethau Proffesiynol adolygu eu dulliau gweithredu eu hunain o bryd i'w gilydd, i sicrhau bod gofynion y Safon Bolisi hon yn cael eu gweithredu, eu bod yn addas ac yn effeithiol.

Yn ogystal, gall Pwyllgor Iechyd a Diogelwch y Brifysgol o bryd i'w gilydd adolygu effeithiolrwydd system y Brifysgol mewn perthynas â mamau newydd a beichiog.

Diwedd